***Newidiadau i ddeddfwriaeth:** Ar hyn o bryd nid oes unrhyw effeithiau heb eu gweithredu yn hysbys ar gyfer y Deddf Llywodraeth Leol ac Etholiadau (Cymru) 2021, Paragraff 5. (See end of Document for details)*

## ATODLEN 1

### ADOLYGIADAU CYCHWYNNOL O DREFNIADAU ETHOLIADOL ETC.

*Cynnal adolygiad cychwynnol*

5 (1) Rhaid i'r Comisiwn, wrth ystyried y trefniadau etholiadol ar gyfer ardal sy'n cael ei hadolygu—

(a) ceisio sicrhau bod y gymhareb o etholwyr llywodraeth leol i nifer cynghorwyr y prif gyngor sydd i'w hethol ar gyfer yr ardal sy'n cael ei hadolygu yr un fath ym mhob ward etholiadol o ardal y cyngor, mor agos ag y gall fod, a

(b) rhoi sylw i—

(i) dymunoldeb pennu ffiniau ar gyfer wardiau etholiadol sy'n hawdd eu hadnabod ac y byddant yn parhau felly, a

(ii) dymunoldeb peidio â thorri'r cwlwm lleol wrth bennu ffiniau ar gyfer wardiau etholiadol.

(2) At ddibenion is-baragraff (1)(a) rhaid ystyried—

(a) unrhyw anghysondeb rhwng nifer yr etholwyr llywodraeth leol a nifer y personau sy'n gymwys i fod yn etholwyr llywodraeth leol (fel a welir mewn ystadegau swyddogol perthnasol), a

(b) unrhyw newid yn nifer neu ddosbarthiad etholwyr llywodraeth leol yn yr ardal sy'n cael ei hadolygu sy'n debygol o ddigwydd yn y cyfnod o bum mlynedd sy'n dechrau yn union ar ôl i argymhellion gael eu gwneud.

(3) Caiff Gweinidogion Cymru, at ddibenion adolygiad cychwynnol, gyfarwyddo prif gyngor ar gyfer ardal sy'n cael ei hadolygu neu gyngor ar gyfer cymuned mewn ardal sy'n cael ei hadolygu i ddarparu i'r Comisiwn unrhyw wybodaeth y mae Gweinidogion Cymru yn ystyried ei bod yn briodol neu unrhyw ddogfennau y mae Gweinidogion Cymru yn ystyried eu bod yn briodol.

(4) Yn y paragraff hwn ac ym mharagraff 6—

ystyr "etholwr llywodraeth leol" ("*local government elector*") yw person sydd wedi ei gofrestru'n etholwr llywodraeth leol yn y gofrestr etholwyr yn unol â darpariaethau Deddfau Cynrychiolaeth y Bobl;

ystyr "ystadegau swyddogol perthnasol" ("*relevant official statistics*") yw'r ystadegau swyddogol o fewn yr ystyr a roddir i "official statistics" yn adran 6 o Ddeddf y Gwasanaeth Ystadegau a Chofrestru 2007 (p. 18) y mae'r Comisiwn yn ystyried eu bod yn briodol.

**Gwybodaeth Cychwyn**

**I1** Atod. 1 para. 5 mewn grym ar 21.1.2021, gweler **a. 175(1)(f)**

**Newidiadau i ddeddfwriaeth:**
Ar hyn o bryd nid oes unrhyw effeithiau heb eu gweithredu yn hysbys ar gyfer y Deddf Llywodraeth Leol ac Etholiadau (Cymru) 2021, Paragraff 5.